*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 783 (Cy.80)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Diwygio) (Cymru) 2004

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *16 Mawrth 2004* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Medi 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 77(2) a (4), 80(4), 83(9) a 84(5) o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000(**1**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Diwygio) (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 1 Medi 2004.

(2) Maent yn gymwys i Gymru yn unig.

**Diwygio Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001**

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001(**2**) fel a ganlyn.

(2) Yn lle rheoliad 2 rhowch y canlynol —

"**2.** Mae arolygiadau i'w cynnal —

(a) o fewn chwe mlynedd o'r arolygiad diwethaf, neu

(b) os nad oes arolygiad wedi bod, o fewn chwe mlynedd o ba un bynnag yw'r cynharaf o'r canlynol —

(i) dyddiad unrhyw asesiad neu arolygiad a gyflawnwyd o dan adran 9(4) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**3**);

(ii) dyddiad sefydlu sefydliad sy'n darparu'r addysg a hyfforddiant sydd i gael eu harolygu; neu

(iii) 1 Medi 2004,

ac yna o fewn pob cyfnod o chwe mlynedd o'r arolygiad diwethaf.".

(3) Yn rheoliad 3 —

(**1**) 2000 p.21. I gael ystyr "prescribed" yn adran 77 *gweler* is-adran (9) o'r adran honno.
(**2**) O.S. 2001/2501 (Cy. 204).
(**3**) 1992 p.13.

(a) yn lle'r Rhif “55” rhowch y Rhif “70”, a

(b) dilëwch y geiriau “neu, pan fydd angen darparu cyfieithiad i'r Gymraeg neu'r Saesneg, y cyfnod o 65 niwrnod gwaith o'r dyddiad hwnnw”.

(4) Yn rheoliad 4(1) —

(a) yn lle'r Rhif “40” rhowch y Rhif “50”, a

(b) dilëwch y geiriau “neu, pan fydd angen darparu cyfieithiad i'r Gymraeg neu'r Saesneg, y cyfnod o 50 niwrnod gwaith” a'r geiriau “(yn y naill achos neu'r llall)”.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**)

*D. Elis-Thomas*

16 Mawrth 2004

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p.38.

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001 er mwyn —

(a) darparu bod arolygiadau addysg neu hyfforddiant penodol i'w cynnal o fewn chwe mlynedd o ba un bynnag yw'r cynharaf o'r canlynol —

- dyddiad yr arolygiad diwethaf (o dan Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 neu'r drefn flaenorol o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992),
- dyddiad sefydlu sefydliad newydd, neu
- 1 Medi 2004,

ac yna o fewn pob cyfnod o chwe mlynedd i ddyddiad yr arolygiad diwethaf; a

(b) newid y cyfnod y mae'n rhaid gwneud adroddiad arolygu ynddo i 70 diwrnod gwaith ym mhob achos a'r cyfnod y mae'n rhaid cyhoeddi cynllun gweithredu ynddo i 50 diwrnod gwaith ym mhob achos.